Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

# Ymateb Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru i: Llywodraeth Cymru - Canllawiau statudol drafft yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS).

Yn cau 09 Mehefin 2023
Ymateb a gyflwynwyd drwy'r arolwg ar-lein.

**Eich enw:** Mark Brace
**Sefydliad (os yw'n berthnasol):** Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru, a gynhelir gan CLILC.
**E-bost / Rhif Ffôn**: cymunedaumwydiogel@wlga.gov.uk
**Eich cyfeiriad:** Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru, Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Un Rhodfa'r Gamlas, Heol Dumballs, Caerdydd CF10 5BF

## Cwestiynau'r Ymgynghoriad

**1. A yw'r Cyflwyniad yn rhoi eglurder ynglŷn â'r amcanion a'r rhesymau dros gyflwyno'r broses Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS)? A yw'r Cyflwyniad fel y mae wedi'i nodi yn Adran 1 yn glir ac yn hawdd i'w ddeall?**

Ydy ☒
Nac ydy ☐

**Rhowch sylwadau:**
Rydym yn cytuno bod y cyflwyniad yn glir ac wedi'i ysgrifennu mewn iaith eglur gan ei wneud yn hawdd ei ddeall. Ond, nodwyd nad yw Grŵp Cyfeirio Budd-ddeiliaid Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl, sydd eisoes wedi dechrau cwrdd, wedi'i gynnwys yn y cyflwyniad ond bod y Grŵp Llywio wedi'i gynnwys.

Efallai y byddai'n briodol symud y Grŵp Cyfeirio Dioddefwyr a Theuluoedd fel ei fod yn fwy amlwg, felly'n syth ar ôl y Bwrdd Gweinidogaethol. Y rheswm dros hyn yw bod Dioddefwyr a Theuluoedd i fod yn ganolog i'r Adolygiadau ac mae'n debyg y bydd mewnbwn gan y Grŵp i'r holl lefelau gwahanol o ran llywodraethu a darpariaeth.

Er eglurder, efallai y bydd yn briodol rhestru'r prif gyrff a fydd yn rhan o'r broses, fel y rhai datganoledig - Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Gwasanaethau Troseddwyr Ifanc, Tai, Addysg a'r Gwasanaethau Cymdeithasol), Byrddau Iechyd, Gwasanaethau Tân ac Achub; a'r rhai a gedwir - yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Carchar. Ochr yn ochr â'r rhain, efallai y bydd darparwyr gwasanaethau preifat a thrydydd sector fel gwasanaethau gofal, sefydliadau cam-drin domestig, camddefnyddio sylweddau a sefydliadau iechyd meddwl eraill. Efallai y bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd yn rhan o'r broses os ydynt yn rhan o Bartneriaethau Diogelu Cymunedol neu Fyrddau Diogelu Rhanbarthol ond fel arall dylent gyfrannu at y broses ar y cam argymhellion er mwyn galluogi a monitro gweithrediad o fewn eu hardal eu hunain.

Efallai y bydd tirlun partneriaethau yng Nghymru yn destun newid dros amser. Er mwyn cynorthwyo gyda hirhoedledd y Canllawiau efallai y byddai'n ddefnyddiol cynnwys rhywbeth fel "… dros amser gall y strwythurau llywodraethu newid a gall y Byrddau sy'n ofynnol o dan

ddeddfwriaeth newid hefyd.  Lle y ceir y newidiadau hyn bydd y Canllaw hwn yn parhau i fod yn berthnasol ac yn parhau'n weithredol o fewn y strwythurau newydd neu'r Byrddau newydd neu sydd wedi'u hailffurweddu".

2. **A yw'r Egwyddorion sy'n tanategu'r ADUS a nodir yn Adran 2 yn cyflawni canlyniad dymunol ymagwedd ragweithiol tuag at ddatblygu datrysiadau a diwylliant dysgu cadarnhaol sy'n osgoi adroddiadau lluosog ar gyfer un digwyddiad, gan helpu i leihau trawma pellach ar gyfer dioddefwyr a'u teuluoedd?**

Ydyn ☒

Nac ydyn ☐

**Rhowch sylwadau:**

Ydyn, mewn egwyddor.  Ond, mewn gweithdai y gwnaethom eu cynnal trafodwyd adolygiadau hunanladdiad yn helaeth.  Cydnabuwyd er bod elfen o bryder y byddai nifer yr adolygiadau'n helaeth ac y byddai cyfyngiad o ran capasiti ac adnoddau er mwyn ymdopi â'r galw, roedd yn cael ei gydnabod bod bwlch mewn gwybodaeth a bod angen rhagor o wybodaeth (ac nid o ran cam-drin domestig ar ffurf gorfodaeth yn unig).   Awgrymir y dylid ychwanegu'r adolygiadau hunanladdiad a gyflawnwyd gan Heddlu Cludiant Prydain at Storfa Ddiogelu Cymru fel cam cyntaf pwysig o bosib.

Er y dylai'r Egwyddorion fel y maent alluogi diwylliant cadarnhaol, efallai y byddai'n fuddiol nodi y bydd gan nifer o'r partneriaid sy'n ymwneud ag Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl fframweithiau eu hunain y mae'n rhaid iddynt weithio oddi mewn iddynt, sef:  Nodweddion Ymarfer Effeithiol; Egwyddor Datblygu Cynaliadwy; Ymagwedd Iechyd Cyhoeddus; Nodau Lles a'r Pum Ffordd o Weithio; Egwyddorion Diogelu gan Sefydliad Rhagoriaeth Gofal Cymdeithasol; Egwyddorion JESIP; 4P Plismona, a dull system gyfan.  Gallai cysylltu egwyddorion fframweithiau presennol gyda'r rhai a nodwyd yn y Canllawiau gynorthwyo yn yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl ac ymgorffori'r Egwyddorion yn yr ymarfer.

**3. A yw Adran 3 yn rhoi'r eglurder sydd angen i benderfynu pa bryd y dylid ymgymryd ag ADUS, ac a yw'r meini prawf yn glir a defnyddiol?**

Ydy ☒

Nac ydy ☐

**Rhowch sylwadau:**

Nid oes unrhyw beth nodedig ar goll a oedd wedi'i godi yn y sesiynau a gynhaliwyd ar y Canllawiau gydag ymarferwyr diogelwch cymunedol ac arweinwyr strategol.  Ond, efallai y byddai'n werth cynnwys y gall penderfyniad gael ei wyrdroi gan y Swyddfa Gartref lle y gwnaed penderfyniad lleol i beidio â symud ymlaen gydag Adolygiad Lladdiad Domestig gyda'r manylion ar Adolygiadau Lladdiad Domestig.

**4. A yw Adran 4 yn darparu eglurder am y broses ADUS, ac a oes digon o fanylion ar gyfer pob cam?**

Ydy ☒

Nac ydy ☐

**Rhowch sylwadau:**
Rydym yn cytuno ei bod yn ymddangos bod digon o fanylion ar gyfer pob cam. Bydd yn dibynnu ar yr hyfforddiant, y templedi ac ni fydd yn gwbl hysbys nes y bydd wedi'i weithredu.

**5. A yw pob un o'r Rolau a Chyfrifoldebau a nodir yn Adran 5 yn glir a defnyddiol?**
Ydyn ☒
Nac ydyn ☐

**Rhowch sylwadau:**
Mae'r rolau a'r cyfrifoldebau'n ymddangos yn glir a defnyddiol, ond rydym yn awgrymu y dylid eu hadolygu ar ôl y grŵp cyntaf o Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl i sicrhau bod y disgrifiad ohonynt yn adlewyrchiad o'r ymarfer ac nad ydynt yn gadael unrhyw fylchau neu'n achosi dyblygu tasgau yn ystod y broses.

**6. A yw paragraffau 5.6-5.9 ac atodiad 3 y canllawiau'n helpu Adolygw(y)r i ystyried pa un ai a ddylai partneriaid cymunedol (megis sefydliadau annibynnol a thrydydd sector) gael rhan yn y broses ADUS? Os na, sut y gallai'r canllawiau wella ar hyn?**
Ydyn ☒
Nac ydyn ☐

**Rhowch sylwadau:**
Mae'r wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn briodol, ond mae bwlch o ran y mathau o sefydliadau y dylid ymgysylltu â nhw yn y broses Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl pan fo Adolygiadau Lladdiadau Domestig yn rhan o'r broses. Er enghraifft, nid oes sôn am sefydliadau VAWDASV ar hyn o bryd, megis sefydliadau Cymorth i Fenywod lleol a allai gyfranogi, naill ai am eu bod wedi cael cysylltiad â'r dioddefwr neu i ddarparu cyngor arbenigol.

**7. A yw paragraffau 5.7 – 5.9 ac Atodiad 3 y canllawiau'n helpu'r Adolygw(y)r i ystyried pa un ai a ddylid gofyn i 'unigolyn neu gorff cymwys' am wybodaeth benodol? Os na, sut y gallai'r canllawiau wella ar hyn?**

**Rhowch sylwadau:**
Er ei bod yn ymddangos bod y manylion yn briodol mae materion diogelu data a threfniadau rhannu gwybodaeth sy'n bresennol ar gyfer pob math o adolygiad ar hyn o bryd. Felly, dim ond ar ôl gweithredu'r Canllawiau y gellir gwybod yn iawn a fydd hyn yn cael ei ddatrys drwy'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl neu os yw'r materion presennol yn parhau a bod angen defnyddio dewisiadau eraill i waredu'r rhwystrau amhriodol.

**8. I ba raddau ydych chi'n credu y gallai ymgysylltu gan bartneriaid cymunedol perthnasol, neu 'unigolyn neu gorff perthnasol' yn cyflenwi gwybodaeth benodol, lle mae hynny'n briodol, gynorthwyo'r broses ADUS?**

**Rhowch sylwadau:**
Gan fod anghenion pob adolygiad yn wahanol bydd y galw yn amrywio.

Mae nifer o bartneriaid cymunedol yn arbenigwyr yn eu meysydd eu hunain, er enghraifft gyda cham-drin domestig mae gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr arbenigol ond hefyd mae cymorth arbenigol ar gyfer cyflawnwyr i'w hatal rhag troseddu neu aildroseddu a allai gyflwyno safbwynt gwahanol neu gyflwyno gwybodaeth wahanol.

**9. A yw'r canllawiau ar gyfer ymgysylltu â dioddefwyr, teuluoedd a phrif unigolion, fel y nodir yn Adran 6, yn glir a defnyddiol? Ystyriwch pa un ai a yw'n glir bod angen i'r Adolygw(y)r a'r Panel Adolygu ymdrin â phob cyfranogwr yn yr adolygiad fesul achos ac yn sicrhau bod y dioddefydd, teuluoedd a phrif unigolion wrth galon y broses adolygu.**

Ydyn ☒

Nac ydyn ☐

**Rhowch sylwadau:**

Rydym yn cytuno ei fod yn glir, ond byddem yn awgrymu nad yw'n briodol cynnwys cyflawnwyr yn y grŵp o 'brif unigolion' ynghyd â ffrindiau, cymdogion, cydweithwyr a chynrychiolwyr cymunedol. Mae'n debyg y bydd angen rheoli cyflawnwr o fewn yn broses yn wahanol i'r prif unigolion eraill. Er enghraifft, bydd angen ystyried eu cadw ar wahân, cyfyngiadau teithio neu gyfnod yn y carchar. Bydd amseru eu cyfranogiad hefyd yn debygol o amrywio o'r lleill er mwyn sicrhau nad ydym yn peryglu unrhyw achos neu apêl yn eu herbyn.

**10. Mae Adran 7 yn amlinellu nifer y camau sydd angen eu cymryd fel rhan o'r broses adolygu. A yw'r camau hyn yn y drefn gronolegol briodol ac yn glir o ran yr hyn sy'n ofynnol?**

Ydyn ☒

Nac ydyn ☐

**Rhowch sylwadau:**

Ni chodwyd unrhyw sylwadau ar y mater hwn drwy'r gweithdai a allai fod yn adlewyrchiad o'r ffaith bod Canllawiau Statudol Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl wedi'u drafftio o Ganllawiau Adolygiad Ymarfer Oedolion, Adolygiad Ymarfer Plant ac Adolygiad Lladdiad Domestig yn y lle cyntaf.

**11. A yw Adran 8 yn sicrhau bod dysgu'n elfen allweddol o'r broses ADUS ac yn rhwymedigaeth statudol drwy roi eglurder ynglŷn â sut y rhennir dysgu a gwybodaeth fel rhan o'r broses ehangach, gan gynnwys gweithio gyda phartneriaethau perthnasol megis Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus?**

Ydy ☒

Nac ydy ☐

**Rhowch sylwadau:**

Mae'r Canllaw yn darparu dangosyddion clir bod angen i ddysgu ac argymhellion gyrraedd y cyrff perthnasol, y pryder yw sut y bydd hyn yn cael ei gyflawni. Sut mae Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn camu'n ôl o'r elfen ranbarthol ac yn ymgysylltu ar lefel Awdurdod Lleol gyda Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol, ynghyd ag ymgysylltu ar draws byrddau rhanbarthol eraill fel Byrddau Rhanbarthol VAWDASV, Byrddau Cynllunio Ardal ar Gamddefnyddio Sylweddau, Grwpiau Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol? Er nad ydym yn credu y bydd Canllawiau Statudol Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl yn darparu'r datrysiadau, rydym yn credu y dylai fod yn gatalydd ar gyfer gwella cyfathrebu a chysylltiadau rhwng yr holl Fyrddau a sicrhau ymarfer orau ac y gwneir gwelliannau lle bo'r angen, gan gynnwys o fewn Llywodraeth Cymru.

Yn hanesyddol, nid yw'n ymddangos bod llawer o gyfranogiad na chydweithio rhwng y Byrddau Diogelu Rhanbarthol a'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol. Mae hyn yn rhywbeth sy'n cael ei ystyried yn lleol ond dylid ei ystyried ar lefel genedlaethol hefyd. Efallai y bydd yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl, fel y nodwyd yn flaenorol, yn atgyfnerthu'r perthnasoedd hyn yn naturiol gyda'r cadeiryddion, aelodau panel ac adolygiad achos yn cyfranogi o'r ddau fath o waith, gydag argymhellion o bob math o adolygiad yn cael eu rhannu gyda'r ddau. Ond, roeddem yn credu y dylid ei gynnwys gan y gallai fod yn fuddiol cynnwys rhywbeth yn y Canllawiau o ran pwysigrwydd meithrin y cysylltiadau a'r perthnasoedd hyn er mwyn galluogi rhedeg y broses yn llyfn a lleihau unrhyw oedi posibl ar unrhyw bwynt yn y broses.

Mae'n llai amlwg sut y bydd unrhyw ddysgu neu argymhellion ar gyfer materion a gedwir yn ôl yn cael eu rheoli boed drwy Ganolbwynt Cydlynu Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl, Bwrdd Diogelu Rhanbarthol neu Lywodraeth Cymru'n ymgysylltu â Gweinidogion ac Adrannau San Steffan megis y Swyddfa Gartref neu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Efallai y bydd rôl ar gyfer Paneli'r Heddlu a Throsedd i sicrhau bod Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd yn ymwybodol o unrhyw argymhellion sy'n effeithio arnynt neu ar Wasanaeth yr Heddlu a galluogi a monitro gweithrediad unrhyw ddysgu ac argymhellion o'r Adolygiadau.

**12. A yw Adran 9 yn nodi'r ystyriaethau Diogelu Data mewn ffordd sy'n glir a defnyddiol? Hoffech chi weld ymrwymiad cyfreithiol clir yn yr adran hon sy'n ei wneud yn ofynnol i bartneriaid adolygu rannu gwybodaeth ar gyfer dibenion adolygu ADUS ar gais, pe bai modd dod o hyd i un?**

Ydy ☒

Nac ydy ☐

**Rhowch sylwadau:**

Ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael o ran sicrhau bod popeth yn ddienw a thynnu gwybodaeth a allai fod yn ofynnol cyn rhannu'r Adolygiad gyda chynulleidfaoedd ehangach neu ei gyhoeddi. Gall yr Adolygiadau beri straen i'r dioddefwyr, teulu a ffrindiau a gall gynnwys gwybodaeth bersonol na ddylid ei rhannu gyda chynulleidfa ehangach. Efallai y bydd rhai amgylchiadau lle mai dim ond yr Argymhellion y gellir eu rhannu'n gyhoeddus. Er bod hyn yn gallu arwain at golli rhywfaint o gyd-destun, efallai y bydd yn ofynnol er mwyn diogelu plant ac oedolion mewn perygl / oedolion diamddiffyn. Canolbwynt yr Adolygiad Diogelu Unigol Sengl yw diogelu ac atal digwyddiadau pellach yn y dyfodol ond mae angen rhywfaint o ymwybyddiaeth y gallai'r wybodaeth yn yr adolygiad arwain at oblygiadau diogelu ar gyfer y rhai sy'n cyfranogi.

Rydym yn credu y dylid atgyfnerthu Diogelu Data a Rhannu Gwybodaeth er mwyn cynorthwyo i ddiddymu rhwystrau ar gyfer rhannu gwybodaeth berthnasol ar gyfer yr adolygiad (gan roi ystyriaeth i unrhyw achosion gan y crwner, achosion cyfreithiol neu lys sifil lle y gallai datgelu gwybodaeth fod wedi'i gyfyngu er mwyn atal goblygiadau dilynol). Gallai goblygiadau cyfreithiol clir gynorthwyo i alluogi rhannu gwybodaeth, ond bydd angen bod yn ofalus i sicrhau bod yr holl rai sy'n cyfranogi wedi'u cynnwys, nid y cyrff datganoledig yn unig ond y cyrff eraill fel yr Heddlu a'r Gwasanaeth Prawf hefyd.

**13. A yw'r canllawiau'n rhoi digon o eglurder a hyblygrwydd er mwyn sicrhau y bydd partneriaid allweddol, gan gynnwys Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn gysylltiedig ac yn ymwneud â'r broses ADUS yn effeithiol, pan mae hyn yn briodol a defnyddiol?**

Ydyn ☒

Nac ydyn ☐

**Rhowch sylwadau:**

Mae'r Canllawiau'n glir lle bo Lladdiad Domestig neu Laddiad Arfau Ymosodol dan sylw, mae angen hysbysu'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol ynghyd â'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, ynghyd â chyfranogiad gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar y Panel Adolygu Achos a thrwy'r holl gamau gan gynnwys rôl cadeiryddion y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

Mae rôl, cyfranogiad ac ymgysylltiad gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn llai amlwg. Gallai hyn fod oherwydd bod sawl ardal o Gymru lle mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn adrodd i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ond mewn ardaloedd eraill nid oes yr un berthynas lywodraethol. Rydym yn credu y byddai'n fuddiol sicrhau bod rôl y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn cynnwys rhannu argymhellion strategol ac sy'n gofyn am weithredu gan bartneriaid Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus o'r Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, ac y rhoddir yr un cyfrifoldeb i'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Gweler hefyd ein hatebion i gwestiynau 11 a 13 ar y mater hwn.

**14. Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol y ffyrdd o weithio a nodir yn y canllawiau hyn ar unigolion a grwpiau â nodweddion gwarchodedig? Croesewir eich barn ynglŷn â sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol hefyd. Defnyddiwch y blwch testun i esbonio'ch rhesymau.**

Nid yw'r Canllawiau'n cyfeirio rhyw lawer os o gwbl at ymgysylltu â'r rhai gyda chapasiti gwybyddol cyfyngedig a sut y gallant fod yn rhan o'r broses naill ai fel dioddefwr, teulu neu ffrind. Gallai'r capasiti gwybyddol fod yn sgil dementia, anabledd dysgu, anaf i'r ymennydd (oherwydd eu bod yn ddioddefwr o bosib) neu iechyd meddwl sy'n effeithio ar realiti. Efallai y bydd angen ymagwedd wahanol ar gyfer pob un o'r rhain.

Yn yr un modd, nid oes sôn am ddefnyddio dulliau cyfathrebu gwahanol fel Iaith Arwyddion Prydain, Makaton, Iaith Arwyddion â Chyffyrddiad. Er y gellir rheoli hyn drwy ddefnyddio gwasanaethau eirioli, mae risg y gallai leihau'r gallu ar gyfer gwir ymgysylltiad, felly dylid sicrhau bod trefniadau amgen ar gael lle bo modd a lle bo'n briodol.

Efallai y bydd angen ymgysylltu â dioddefwyr, teulu a ffrindiau mewn ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg, yn enwedig yn y cam cyfweld. Er enghraifft, mae un math o gamdriniaeth a rheolaeth yn cynnwys atal y dioddefwr rhag dysgu iaith eu hardal gan gyfyngu eu gallu i gyfathrebu. Felly, er mwyn clywed eu straeon a'r manylion, efallai y bydd angen defnyddio ieithoedd eraill neu gyfieithwyr. Dylai safonau a hygyrchedd fod yn rhan o unrhyw ymgysylltiad gan gyfieithwyr.

Gallai dyslecsia atal unigolyn rhan gallu darllen a chynorthwyo i dynnu gwybodaeth allan o'r Adolygiad. Er y bydd angen ymdrin â'r mater fesul achos, efallai y dylid cynnwys hyn fel rhywbeth sydd angen ei reoli tuag at ddiwedd y broses.

Mae ail-fyw profiad trawmatig yn debygol o achosi straen a gall arwain at Anhwylder Straen Wedi Trawma (PTSD). Felly efallai y byddai'n briodol cynnwys gwybodaeth am sefydliadau a phrosesau atgyfeirio i gefnogi a gwasanaethau ar gyfer PTSD fel rhan o'r wybodaeth a roddir i ddioddefwyr, teuluoedd ac eraill sy'n rhan o'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl.

Nid yw lles yr Adolygwyr, a allai fod yn prosesu gwybodaeth bersonol anodd fel rhan o'r Adolygiad, wedi'i gynnwys yn y Canllawiau. Dylid ystyried cefnogaeth ar eu cyfer ac aelodau'r panel naill ai ar lefel genedlaethol neu ar lefel leol neu ranbarthol.

**15. Yn eich barn chi, beth yw effeithiau eraill tebygol y ffyrdd o weithio a nodir yn y canllawiau hyn? Efallai yr hoffech ystyried, er enghraifft, manteision, ac anfanteision; costau (uniongyrchol ac anuniongyrchol), ac arbedion; materion ymarferol eraill. Croesewir eich barn ynglŷn â sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol hefyd. Defnyddiwch y blwch testun i esbonio'ch rhesymau.**

Rydym yn credu bod y ffyrdd o weithio'n briodol ar gyfer Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl ac nid yw'n amlwg beth fydd y buddion neu'r costau ariannol eto. Mae hyn oherwydd bod Adolygiadau Lladdiadau Domestig yn cael eu comisiynu gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol, ond mae mwyafrif yr Adolygiadau Ymarfer Oedolion ac Adolygiadau Ymarfer Plant yn cael eu cyflawni gan weithwyr cyrff cyhoeddus. Nid yw'n eglur sut y byddai eu huno yn arwain at gomisiynu allanol nac beth fydd effaith Adolygiadau Lladdiadau Iechyd Meddwl, gan ystyried na fydd unrhyw rai wedi'u cyflawni yng Nghymru ers sawl blwyddyn. Er y bydd lleihau'r gwahanol fathau o adolygiadau yn debygol o arbed adnoddau, gall yr arbedion hyn fod mewn adrannau gwahanol o fewn y sefydliadau felly bydd yn arwain at gynnydd mewn rhai adrannau a gostyngiad mewn eraill ac nid yw hynny'n amlwg eto i bawb.

Bydd cynnal un Adolygiad Diogelu Unedig Sengl yn hytrach na hyd at saith adolygiad o fath arall yn arwain at arbed amser i staff rhag bod angen mynychu sawl cyfarfod panel adolygu, ond gallai'r cyfnod hirach y bydd yn ei gymryd i ymdrin â'r rhain wrth iddynt ddelio â chymhlethdodau llawn o ran pobl a chynnal adolygiad cyfannol llawn leihau'r effaith ar adnoddau. Ni fyddwn yn gwybod y manylion penodol hyn nes y bydd modd eu cynnal.

**16. Hoffem glywed eich barn hefyd am effeithiau'r broses ADUS ar y Gymraeg, ac yn arbennig ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut ellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?**

Os ydym am drin y Gymraeg yn gyfartal â'r Saesneg yna dylid cynnwys y cyfle i ymgysylltu yn eu dewis iaith rhwng Cymraeg a Saesneg yn y Canllawiau. Gallai hyn arwain at heriau ychwanegol i nodi cadeiryddion neu ddefnyddio rhagor o gyllid ac adnoddau eraill i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar gyfer cyfweliadau, cyfarfodydd panel a digwyddiadau dysgu. Dylai bod pob Adolygiad Diogelu Unedig Sengl ar gael yn ddwyieithog gan sicrhau cyfrinachedd a diogelu data drwy'r cyfan.

**17. Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a pheidio â chael effaith andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Sylw ar ateb 16.

**18. Yr ydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin yn benodol â nhw, defnyddiwch y gofod hwn i adrodd amdanynt:**

Rydym wedi derbyn gwybodaeth drwy'r gweithdai a gohebiaeth arall bod Adolygiadau Lladdiadau Domestig yn cael eu gohirio gan Banel Sicrwydd Ansawdd y Swyddfa Gartref ar hyn o bryd, gydag Adolygiadau Lladdiadau Domestig a gyflwynwyd ym mis Mawrth / Ebrill ddim yn cael eu hystyried gan y Panel tan fis Rhagfyr. Mae llawer o oedi o ran cymeradwyo Adolygiadau yn dilyn adborth sy'n aml yn anghyson o'r Panel Sicrwydd Ansawdd. Mae hyn yn annerbyniol ar gyfer dysgu amserol ac mae'n ymestyn y broses ar gyfer dioddefwyr, teuluoedd a ffrindiau. Efallai y byddai'n briodol sefydlu Panel Sicrwydd Ansawdd Cymru, sydd wedi'i leoli o fewn Llywodraeth Cymru, sy'n deall y cyd-destun yng Nghymru ac sy'n gallu ymateb yn fwy prydlon. Dylai gynnwys cynrychiolaeth gan y Swyddfa Gartref, gan fod oedi Adolygiad Diogelu Unedig Sengl am un rhan yn unig yn ymddangos yn eithafol. Codwyd cwestiwn yn un o'n gweithdai o ran sut y byddai Panel Sicrwydd Ansawdd y Swyddfa Gartref yn ymdopi â fformat gwahanol a'r ffaith y byddai materion ehangach yn yr Adolygiad ac efallai na fyddent wedi'u hyfforddi ynddynt neu nad oes disgwyl iddynt gyflwyno sylwadau arnynt.

Bu materion o ran ansawdd rhai Adolygiadau Lladdiadau Domestig a lefel hyfforddiant neu gymhwysedd cadeiryddion hyfforddedig Adolygiadau Lladdiadau Domestig. Felly rydym yn credu y dylid ystyried galluogi elfennau o'r Adolygiad Lladdiadau Domestig i ffurfio rhan o hyfforddiant ehangach Adolygiad Diogelu Unedig Sengl a pheidio â pharhau fel endid ar wahân.

Mewn trafodaethau, roedd y rhai a fynychodd ein gweithdai ar Ganllawiau Statudol Adolygiad Diogelu Unedig Sengl yn gyfforddus â'r canllawiau, ond mae angen bod yn ofalus wrth bontio, gydag ymgysylltiad gyda Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol a Byrddau Diogelu Rhanbarthol.

Ar ôl darparu'r holl wybodaeth, crynhowyd y consensws cyffredinol gan un cyfranogwr yn ein gweithdai: "Mae hyn yn syml a dyma'r ffordd gywir ar gyfer y dyfodol".